

Arbediad campus

Teimlwyd bod pob argyfwng yn waeth na'r un blaenorol, ond daeth awr dduaf y Swans yn 2001 gyda'r clwb yn cyhoeddi colledion hanner blwyddyn o £800,000 ym mis Ionawr. Dyma Tony Petty yn prynu'r clwb a'r ddyled am £1, ond arweiniodd rheoli gwan at brotestio gan y cefnogwyr yng nghanol y dref. Wedi methu talu chwaraewyr, gwerthwyd y clwb i gonsortiwm dan arweiniad y cyn chwaraewr Mel Nurse.

Dyma pryd y sefydlwyd Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Dinas Abertawe i sicrhau bod gan y cefnogwyr ffyddlon lais yn nyfodol y clwb. Chwaraeodd yr Ymddiriedolaeth rôl allweddol yn y frwydr yn erbyn Petty. Dyma nhw'n buddsoddi swm sylweddol yn y clwb "newydd", ac mae ganddynt sedd ar y Bwrdd.

Eiddo'r Ymddiriedolaeth Gefnogwyr yw 20% o'r cyfranddaliadau, ac mae'n fodel perchnogaeth cefnogwyr gaiff ei edmygu gan nifer o glybiau.

Roedd un rhwystr arall i'w basio fodd bynnag. Ym mis Mai 2003, â rhannau o'r Vetch wedi'u cau i gefnogwyr, tyrrodd 10,000 i wylio'r tîm yn curo Hull City a chadw'r clwb yn y Drydedd Adran. Gyda'r dorf yn rhuo eu cefnogaeth enillodd Abertawe o 4-2, gyda'r bachgen lleol James Thomas yn sgorio tair.



Every difficult time was felt to be the worst yet, but the true crisis for the Swans came in 2001. In January the club announced a half-year loss of £800,000. Tony Petty took over the club and the debt for £1, but very poor management saw protests against him by fans in the city centre. After failing to pay the players, he sold the club to a consortium led by ex-player Mel Nurse.

At this time, the Swansea City Supporters Trust was set up. They wanted to ensure that the loyal fans had a say in the club's future. The Trust was instrumental in winning the battle with Petty. They invested a considerable sum in the "new" club, and are represented on the Board. The Supporters Trust owns 20% of the shares, and provides a supporter-ownership model admired by many other clubs.

The risk of disaster had not quite passed. In May 2003 nearly 10,000 fans packed the reduced-capacity Vetch Field to roar the team on to a win against Hull City. Losing that game would have meant relegation from the Football League. The passion of the fans spurred the team on, inspiring a hat-trick by local boy James Thomas and a 4-2 victory.























